# Adroddiad Gwrthwynebiad:

# Y Cynnig i Gau Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

## Cynnwys

1. Cefndir .......................................................................................................... 2

2. Gwrthwynebiad i'r hysbysiad statudol ....................................................... 3

## 1. CEFNDIR

Mae Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc ym mhentref Craig Cefn Parc yn Abertawe.

Ym mis Ionawr 2018, roedd ganddi 54 o ddisgyblion amser llawn (ALl) ar y gofrestr rhwng 4 a 11 oed, ynghyd â 2 blentyn meithrin rhan-amser. Ym mis Medi 2018, roedd 45 o blant ALl a 4 o blant meithrin ar y gofrestr. Ym mis Ionawr 2019, roedd y nifer ar y gofrestr wedi gostwng ymhellach i 40 ALl ynghyd â 7 meithrin. Mae tri dosbarth oedran cymysg yn yr ysgol. Mae'r nifer ar y gofrestr wedi bod yn disgyn dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf Estyn o'r ysgol ym mis Mai 2015 ac roedd perfformiad yr ysgol yn ddigonol ar y pryd gyda rhagolygon gwella digonol ac fe'i gosodwyd mewn categori monitro gan Estyn. Symudwyd yr ysgol o gategori monitro Estyn ym mis Hydref 2016 ar ôl cymorth sylweddol gan yr awdurdod lleol a buddsoddiad amser gan staff yr ysgol. Mae adroddiad Estyn i'w weld yma:
https://www.estyn.gov.wales/provider/Craig Cefn Parc-primary-school

Mae gan yr ysgol bennaeth newydd dros dro ers mis Medi 2018 y bu’n rhaid iddo gyflawni rôl addysgu ran-amser i gydbwyso cyllideb yr ysgol.

Mae’r awdurdod lleol wedi ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc yn weithredol o 31 Awst 2019. Cynigir y dylid trosglwyddo’r dalgylch presennol i Ysgol Gynradd Clydach. Byddai cludiant i Ysgol Gynradd Clydach yn cael ei ddarparu ar gyfer pob disgybl sy'n byw yng Nghraig Cefn Parc.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriodd y Cabinet yr ymatebion oedd wedi dod i law ar 20 Rhagfyr, a chytunwyd i symud y cynnig ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol, yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Cyhoeddwyd yr hysbysiad ar 9 Ionawr 2019 a gwahoddwyd gwrthwynebiadau tan 6 Chwefror 2019.

## 2. GWRTHWYNEBIADAU I'R HYSBYSIAD STATUDOL

Daeth 39 gwrthwynebiad ysgrifenedig i law (a byddai un o'r rhain ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu).

Y gwrthwynebiadau oedd:

| | Y Pwynt a Godwyd | Ymateb yr Awdurdod Lleol | Nifer yr Ymatebion Ysgrifenedig sy'n codi'r pwynt | % o'r ymatebion ysgrifenedig sy'n codi'r pwynt |
|---|---|---|---|---|
| | **Teithio/Trafnidiaeth** | | | |
| 1 | Mae'r strydoedd o amgylch Ysgol Gynradd Clydach eisoes yn gul ac yn llawn tagfeydd. Bydd traffig/bysiau ychwanegol. Nid yw asesiad traffig y Cyngor yntau yn argymell adleoli plant Craig Cefn Parc i Glydach. Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal â thrigolion ynghylch y cynnydd arfaethedig mewn traffig a mesurau tawelu, ac mae'n bosibl na fydd hynny'n ymarferol. Pryder gan drigolion Clydach fod traffig ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol eisoes yn broblem, ac na fyddai cerbydau argyfwng yn gallu mynd trwy'r strydoedd cul a phrysur. | Mae mannau o amgylch ysgolion fel arfer yn brysur ar ddechrau ac ar ddiwedd diwrnod ysgol. Roedd y Cyngor wedi nodi'r angen am rai mesurau traffig ychwanegol ar safle Clydach yn y papur ymgynghori (yn dilyn asesiad diogelwch ysgol a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru ychydig flynyddoedd yn ôl). Bydd y rhain yn symud ymlaen ar gyfer 1 Medi 2019 ni waeth beth fydd canlyniad yr ymgynghoriad ar gau'r ysgol, ac am gost o oddeutu £67 mil, sy'n cynnwys amcangyfrif o'r gwaith o roi arwyneb newydd ar ffyrdd y gallai fod ei angen. Byddai angen tri bws mini ychwanegol pe byddai dysgwyr Craig Cefn Parc yn cael eu cludo i'r safle, ynghyd â rhai ceir ychwanegol pe na bai dysgwyr yn defnyddio'r bws. Mae Ysgol Clydach wedi cyflwyno amser gorffen gwahanol i'r diwrnod ysgol ar gyfer y safle iau ac erbyn hyn maent yn gorffen 10 munud yn gynt na safle'r babanod, gan leddfu'r tagfeydd. Dylid nodi bod pryderon ynghylch traffig ar safle Ysgol Craig Cefn Parc yn ogystal, gan gynnwys problemau parcio i rieni, a nododd yr adroddiad asesu diogelwch i Lywodraeth Cymru fod angen mesurau gostegu traffig (culhau) a chreu llwybr cerdded am gost o oddeutu £40 mil. | **31** | **79%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Mae'r gwasanaeth bws cyhoeddus eisoes yn gyfyngedig a gallai leihau, felly byddai rhieni'n cael trafferth mynd â'u plant yn ôl ac ymlaen i Glydach ac yn ôl, y tu allan i gludiant i'r ysgol, os nad oedd ganddynt gar. | Ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar y bws cyhoeddus. | **1** | **3%** |
| 3 | Nid oes llwybr cerdded diogel i Glydach o Graig Cefn Parc. Mae angen mwy o wybodaeth am logisteg trafnidiaeth. Mae'r cynnig yn gwrthod cyfle i blant wneud ymarfer corff/cerdded yn yr awyr iach i'r ysgol. Mae cynyddu'r traffig ar y ffordd i mewn i Graig Cefn Parc yn beryglus. | Byddai pob disgybl oed statudol yn nalgylch Craig Cefn Parc yn cael cludiant am ddim i Ysgol Gynradd Clydach. Y cynnig yw darparu tri bws mini i fynd â'r dysgwyr o Graig Cefn Parc, gyda phob bws mini yn cael cynorthwyydd cludiant yn ogystal â'r gyrrwr. Nid yw'r bysiau'n casglu o'r cartref o reidrwydd a byddai mannau codi addas yn cael eu trefnu, a'r dysgwyr yn dal i orfod cerdded i'r mannau hyn. Mae asesiadau traffig yn nodi bod llawer o blant yn cael eu cludo i Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc yn y car ac nad ydynt yn cerdded. | **19** | **49%** |
| 4 | Ni fydd bysiau'n gallu stopio y tu allan i'r ysgol a bydd rhaid i ddisgyblion gerdded o'r arhosfan bysiau/ar y stryd fawr brysur. Byddai'n rhaid i blant aros mewn arosfannau bysiau ar eu pennau eu hunain. Pwy fydd yn gyfrifol am y plant tra byddant ar y bws? Mae fy mhlentyn yn cael ei asesu ar gyfer anghenion arbennig felly byddai angen cymorth ychwanegol ar fws neu dacsi i'r ysgol ond rydym yn cerdded ar hyn o bryd. A fydd bws yn cael ei ddarparu bob tro? | Byddai gan bob un o'r tri bws mini arfaethedig gynorthwyydd teithwyr. Yn ogystal â gofalu am y plant ar bob bws, byddai ef neu hi yn gyfrifol am gerdded eu grŵp o blant rhwng y bws a mynedfa'r ysgol yn y bore a rhwng mynedfa'r ysgol a'r bws yn y prynhawn. Y cynorthwy-ydd teithwyr fyddai'n gyfrifol am y plant ond yn y pen draw, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiogelwch pob plentyn. Y rhieni fyddai'n gyfrifol am fynd â'u plant i'r mannau codi, fel y maent yn awr yn mynd â hwy i'r ysgol. Bydd gofynion cludiant unrhyw blentyn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn cael eu hasesu, ac anghenion yn cael eu diwallu'n briodol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i fodloni gofynion parhaus ei bolisi trafnidiaeth. | **10** | **26%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Bydd cynnydd allyriadau CO2 o'r ceir a'r bysiau ychwanegol a fydd yn teithio i Glydach.  Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i wneud y sector cyhoeddus yn ddi-garbon erbyn 2030. | Mae nitrogen deuocsid (NO2) yn cael ei fonitro ar draws yr awdurdod lleol yn unol â chanllawiau a gynhyrchir gan DEFRA a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'n annhebygol y bydd y llif traffig cynyddol o'r cerbydau ychwanegol a amcangyfrifir ar gyfer y cynnig hwn adeg amseroedd gollwng a chasglu o'r ysgol yn effeithio ar y crynodiadau gwrthrychol y bydd gofyn inni eu hasesu. Mae angen pwyso'r allyriadau cynyddol o draffig o'u cymharu ag allyriadau'r boeler tanwydd olew a chyfleustodau eraill ar safle ysgol Craig Cefn Parc. | **7** | **18%** |
| 6 | Anhawster i breswylwyr Craig Cefn Parc fynd i'r ysgol mewn tywydd garw megis eira a rhew. | Ar hyn o bryd mae bysiau yn gadael y pentref i fynd â dysgwyr i Ysgol Gynradd Sant Joseff yng Nghlydach, YGG Gellionnen, Ysgol Gyfun Gellifedw, Ysgol Gyfun Cwm Tawe, YGG Bryn Tawe ac Ysgol Gyfun Gatholig yr Esgob Vaughan. Dim ond ar adegau prin y bydd y tywydd yn atal y bysiau hyn rhag rhedeg. | **2** | **5%** |
| 7 | Mae bryn y Lôn yn dioddef oherwydd ymsuddo ar y ffordd, sy'n gwaethygu os bydd traffig a bysiau ychwanegol.  Dyma'r unig ffordd i mewn i Graig Cefn Parc o Glydach. | Ni fydd cynnydd sylweddol mewn traffig.  Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gadw'r ffordd hon ar agor ac, os bydd unrhyw ymsuddo, byddai'n sicrhau bod unrhyw waith angenrheidiol yn cael ei wneud. | **1** | **3%** |
| 8 | Gan mai dim ond ar gyfer dechrau a diwedd y diwrnod ysgol y darperir y bws ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol statudol, ni fydd plant yn gallu mynd i'r feithrinfa, clwb brecwast neu glwb/chwaraeon ar ôl ysgol (oni bai fod y rhieni'n trefnu eu cludiant eu hunain, gan ychwanegu at dagfeydd).  Nid yw'n ymarferol i'r rhai nad ydynt yn cael y bws gerdded gan fod y ffyrdd yn beryglus.   Ni fydd rhieni sydd am fynd yn ôl i'r gwaith yn gallu defnyddio'r ddarpariaeth 'gofleidiol'. | Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gludo disgyblion ar gyfer addysg statudol. Y rhieni sydd bob amser yn gyfrifol am sicrhau bod eu dysgwyr yn cael mynd yn ôl ac ymlaen i unrhyw weithgareddau y tu allan i'r ysgol, megis clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol.  Fodd bynnag, os bydd galw cyson, mae'n bosibl i rai o'r bysiau mini adael Craig Cefn Parc yn gynt er mwyn caniatáu i blant fynychu clwb brecwast. | **13** | **33%** |
| 9 | Mae rhai plant eisoes yn cael bws i ysgol Craig Cefn Parc gan eu bod yn byw ar ffermydd anghysbell. | Bydd amser teithio i'r ysgol o fewn gofynion y Mesur Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru. | **1** | **3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Byddai eu symud i Glydach yn cynyddu eu hamser teithio i'r ysgol. | | | |
| | | | | |
| | **Effaith ar y Gymuned** | | | |
| 10 | Effaith fawr ar y pentref a busnesau lleol. Bydd y pentref yn lle llai atyniadol i deuluoedd fyw ynddo a bydd hyn yn arwain at farwolaeth cymuned fywiog, fyw. Ynysu cymdeithasol i bentrefwyr (oedrannus ac ati) | Mae llawer o bentrefi yn Abertawe heb ysgol. Mae'r cynnig hwn wedi'i wneud am resymau addysgol ac mae'n rhaid i'r rhain fod yn bwysicach na'r effaith dybiedig ar y gymuned. Bydd neuadd gymunedol fawr a llawer o ddefnydd arni yn parhau yn y pentref. Nid yw cyfleusterau'r ysgol yn cael eu defnyddio ar gyfer y gymuned ehangach. | **12** | **31%** |
| 11 | Mae rhieni a disgyblion yn rhyngweithio'n gymdeithasol wrth gerdded i'r ysgol ac wrth gatiau'r ysgol. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol megis cyngherddau carolau yn y capel. Bydd yn effeithio ar les meddyliol y gymuned. | | **6** | **15%** |
| 12 | Beth yw'r cynllun ar gyfer adeilad yr ysgol os caiff ei chau? | Pe bai'r ysgol yn cau, byddai'r adeilad yn cael ei ystyried at ddefnydd arall gan y cyngor neu'n cael ei gyflwyno i'w waredu, gan gynnwys trosglwyddo asedau cymunedol. | **1** | **3%** |
| 13 | Os gweithredir y cynnig i gau YGG Felindre hefyd, ni fydd ysgol yn ward Mawr o gwbl. | Mae ward arall yn Abertawe heb ysgol (De Cilâ). | **1** | **3%** |
| 14 | Mae cofeb yn Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc ar gyfer plant Mandy Power a lofruddiwyd, a bydd cael gwared ar y gofeb hon yn cythruddo'r gymuned. | Pe bai'r ysgol yn cau, byddai'r gofeb yn cael ei hadleoli'n briodol. | **2** | **5%** |
| | | | | |
| | **Maint yr Ysgol/Nifer ar y Gofrestr/Maint Dosbarthiadau** | | | |
| 15 | Nid yw rhagfynegiadau disgyblion yn gywir. Nid oes cydberthynas rhwng y gyfradd genedigaethau yn yr ardal a maint yr ysgol, felly ni ddylid defnyddio'r ddadl hon. Byddai'r nifer ar y gofrestr yn cynyddu pe bai'r bygythiad i gau yn diflannu. Dylai'r awdurdod lleol dderbyn mwy o ddisgyblion i Graig Cefn Parc yn lle ysgolion eraill sy'n llawn. Roedd yr awdurdod yn anghywir pan ddywedodd na fu unrhyw geisiadau i dderbyn disgyblion i'r ysgol. | Mae'r nifer ar y gofrestr yn parhau i ostwng. Mae'r awdurdod lleol yn derbyn pob dysgwr lle mae rhieni yn gofyn am le os oes lle yn yr ysgol honno. Ni all gyfeirio disgyblion at ysgol arall ond os nad oes lle iddynt yn ysgol eu dewis. Mae'r grwpiau blwyddyn mwy yng Nghyfnod Allweddol 2 (iau) ac mae'r niferoedd sy'n cael eu derbyn i'r Cyfnod Sylfaen (babanod) yn llawer is. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn y nifer ar y gofrestr wrth i'r disgyblion hyn fwydo trwy'r ysgol. Y niferoedd ym mhob grŵp | **14** | **36%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | blwyddyn yn y cyfrif disgyblion ym mis Medi 2018 oedd: Meithrin = 4, Derbyn = 1, Blwyddyn 1 = 4, Blwyddyn 2 = 4, Blwyddyn 3 = 6, Blwyddyn 4 = 10,Year 5 = 7, Blwyddyn 6 = 13. Yn Ionawr 2019, roedd Blwyddyn 4 wedi gostwng i 7 ac roedd blwyddyn 6 wedi gostwng i 12. | | |
| 16 | Mae dosbarthiadau bach a chymysg o ran oedran o fudd enfawr i'n plant. Cafodd adroddiad Estyn ar fanteision ysgolion mwy o faint ei gyffredinoli. Rydym wedi cynhyrchu ein hymchwil ein hunain ac yn gwybod am y manteision i'n hysgol ein hunain. | Mae gan Glydach ddosbarthiadau oedran cymysg hefyd, fel sy'n gyffredin mewn llawer o ysgolion, er mai dim ond ar gyfer dau grŵp blwyddyn mewn dosbarth y byddai hyn. Mae gan Graig Cefn Parc wedi meithrin i Flwyddyn 2 (y Cyfnod Sylfaen i gyd) mewn un dosbarth, Blynyddoedd 3 a 4 mewn dosbarth arall a Blynyddoedd 5 a 6 mewn ysgol arall. Wrth i'r grwpiau blwyddyn mwy adael Cyfnod Allweddol 2 ac i’r cyllidebau grebachu, mae'n debygol y bydd yn rhaid i'r ysgol leihau ei lefelau staffio a gweithredu gydag un dosbarth yn unig ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 i gyd. Mae hyn yn ychwanegu pwysau at staff addysgu sy'n gorfod addysgu’r cwricwlwm priodol i'r dysgwyr yn yr ystod oedran eang honno sydd â chymorth cyfyngedig gan gynorthwywyr addysgu. | **7** | **18%** |
| 17 | Nid yw ysgol fwy o faint yn paratoi dysgwyr yn well ar gyfer yr ysgol gyfun. Mae staffio diwrnodau pontio yn amherthnasol. Yr oedd yr honiad hwn yn ddi-sail. | Effeithiolrwydd arweinyddiaeth a'r gwaith dilynol o ddatblygu cynlluniau pontio ysgol effeithiol fydd yn pennu llwyddiant, yn hytrach na maint yr ysgol. Mae adroddiadau adolygu Estyn yn adlewyrchu bod cynlluniau pontio bellach yn nodwedd gref o waith y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner. Bellach mae athrawon yn ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi addysgu a dysgu i'w helpu yn eu gwaith cynllunio. Mae gweithgareddau dysgu trawsgwricwlaidd sydd wedi'u cynllunio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn rhan amlwg o gynlluniau datblygu ysgol. Budd y ffocws cenedlaethol ar ysgolion | **3** | **8%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sy’n datblygu gwaith partneriaeth a chydweithredu o ysgol i ysgol yn cryfhau'r agwedd hon ar gyfer pob ysgol.  Byddai'n rhaid i'r staff cyfyngedig yng Nghraig Cefn Parc gefnogi’r gwaith pontio ar gyfer ysgolion uwchradd (gall dysgwyr fynd i Ysgol Gyfun Gellifedw yn Abertawe ond yn aml i Ysgol Gyfun Cwm Tawe yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot) yn ogystal â pharhau i gefnogi'r dysgwyr yn eu dosbarth mewn grwpiau oedran eraill. | | |
| 18 | Bydd llai o gyfle i gymryd rhan mewn rolau cyfrifol e.e. y cyngor ysgol, neu mewn timau chwaraeon. Nid yw Clydach yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol na chwaraeon gwell (yn groes i'r papur ymgynghori). | Mae'n debygol y bydd gan ysgolion mwy o faint fwy o grwpiau i ymuno â nhw gydag amrywiaeth ehangach at ddiddordeb dysgwyr. Mae ysgolion bach yn cael trafferth gyda chwaraeon tîm lle mae angen lleiafswm o chwaraewyr. Rhagwelir y bydd y niferoedd yng Nghraig Cefn Parc yn gostwng ymhellach pan fydd y grwpiau blwyddyn mwy yng Nghyfnod Allweddol 2 yn gadael a bydd hyn yn cyfyngu ymhellach ar chwaraeon tîm. | **5** | **13%** |
| 19 | Mae ysgol fach fel teulu sy'n meithrin. Mae plant yn mwynhau mynd i'r ysgol, fel y gwelir o’r ystadegau presenoldeb.  Mae llai o fwlio. | Nid yw'r cynnig hwn wedi ei wneud am fod yr ysgol yn fach, y rheswm yw bod y Cyngor yn credu nad yw'n gynaliadwy ac y bydd hyn yn effeithio ar addysg dysgwyr, a rhaid i hyn fod yn brif ystyriaeth i'r Cyngor. | **3** | **8%** |
| 20 | Mae’n well gan rai rhieni gael ysgol fach ar gyfer eu plant ac maent am gael y dewis hwn. | | **2** | **5%** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Addysg/Safonau/Arweinyddiaeth** | | | |
| 21 | Mae gwrthwynebwyr o'r farn i'r Cyngor fod yn rhy araf i ddarparu cefnogaeth a chyflwyno newidiadau arweinyddiaeth yn y gorffennol, ac i hynny gyfrannu at ostyngiad yn nifer y disgyblion. Nid yw'r Cyngor wedi caniatáu i lywodraethwyr hysbysebu am bennaeth newydd, gan ychwanegu at eu hachos nad yw'r ysgol yn gynaliadwy. Mae'r penaethiaid dros dro yn cyflwyno newid i wella'r ysgol a dylid rhoi amser iddynt barhau â'r gwaith hwnnw. Dylid cadw'r ysgol ar agor am flwyddyn arall er mwyn profi ei bod wedi ei hadfer ac wedi gwella. | Bu gan yr ysgol o leiaf bedwar pennaeth ac mae wedi cael ei chategoreiddio yn ysgol sy'n peri pryder am y rhan fwyaf (80%) o'r blynyddoedd cyfamserol rhwng Rhagfyr 2013 a Rhagfyr 2018. Yn 2014, roedd yr ysgol yn anghytuno â'r meysydd i'w gwella, gan gynnwys rôl y corff llywodraethu. O ganlyniad, roedd cyfnod rhwng 2013-2015 pan nad oedd yr ysgol yn barod i dderbyn eu hawl am gymorth oherwydd ei bod yn gwrthod derbyn cael ei chategoreiddio'n ysgol a oedd yn peri pryder. Mae'r awdurdod lleol wedi cefnogi Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc pan oedd ei phennaeth parhaol yn absennol o'r ysgol trwy nodi pennaeth dros dro o ansawdd o ysgol arall ac ariannu'r swydd hon am beth amser. Wedyn gwnaeth y person hwnnw gais yn annibynnol am swydd Pennaeth parhaol mewn ysgol fwy faint a llwyddodd i gael y swydd. Mae sefyllfa'r gyllideb yn yr ysgol wedi arwain golygu bod y Dirprwy Bennaeth parhaol yn gweithredu'n bennaeth, ond yn gweithio am o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos ar lawr dosbarth, gyda'r cyfnod di-gyswllt lleiaf o unrhyw bennaeth ysgol yn Abertawe. Mae rhagamcanion y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn tynnu sylw at fwy o bwysau ar ysgolion. Mae'n annhebygol y bydd pennaeth yn cael ei ddenu i ysgol sydd â llai na 50 o ddysgwyr ac sydd mewn categori cymorth 'oren'. Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf mae swyddogion gwella ysgolion wedi gweithio'n ddwys i gefnogi cynnydd ar feysydd i'w datblygu a nodwyd gan yr awdurdod lleol, rhieni a rheoleiddwyr allanol, ac mae'r lefel uchel hon o gefnogaeth yn sefyll allan o'i chymharu ag ysgolion eraill. Gweler hefyd Atodiad C i adroddiad y Cabinet ar 21 Mawrth 2019 | **8** | **21%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | https://democracy.swansea.gov.uk | | |
| 22 | Mae Craig Cefn Parc wedi cael llawer llai o ddiwrnodau cefnogi gan ymgynghorwyr yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf o'i chymharu â'r rhan fwyaf o ysgolion ar draws y sir. | I weld canllaw Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio a chymorth, ewch i: https://beta.gov.wales/national-school-categorisation-system-guidance-parents-and-carers Mae'r awdurdod lleol yn rhoi lefel benodol o gymorth Cynghorydd Her i ysgolion mewn rhai categorïau penodol. Fodd bynnag, mae Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc wedi cael cymorth, yn ariannol ac yn ystod amser staff, sydd ymhell dros y lefel hon. Er gwaethaf y cymorth hwn, gostyngodd categori dros dro diweddar yr ysgol i 'oren'. Mae logiau cymorth clir a logiau adnoddau yn dangos bod yr ysgol wedi derbyn mwy o gymorth nag sydd ei angen i gyflymu'r gwelliannau. Fodd bynnag, gallu'r ysgol ei hun i'w gwella ei hun heb | **1** | **3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ymyrraeth allanol yw'r her fwyaf, gydag ychydig o'r meysydd gwella a nodwyd ym mis Rhagfyr 2013 yn parhau’n feysydd i'w gwella ym mis Rhagfyr 2018. Gweler hefyd Atodiad C i adroddiad y Cabinet ar 21 Mawrth 2019 https://democracy.swansea.gov.uk | | |
| 23 | Mae'r ysgol yn ysgol dda gyda safonau/categori sy’n gwella a dylid rhoi cyfle iddi adfer i lefelau disgyblion arferol. Mae nodi bod ansawdd cyffredinol yr addysg yng Nghraig Cefn Parc yn wael o'i gymharu ag ysgolion cyfagos yn ddamniol ond mae'r canlyniadau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yr un peth ag yn Ysgol Gynradd Clydach. Dyfynnwyd y categori rhanbarthol 'oren' allan o’i gyd-destun ac anwybyddwyd y categoreiddio melyn blaenorol. Roedd Ysgol Gynradd Clydach hefyd yn felyn. | Mae'r ysgol wedi gwella gyda chryn dipyn o gymorth gan yr awdurdod lleol (o ran amser swyddogion a chymorth ariannol), trwy ymroddiad y pennaeth gweithredol (a ddarperir gan yr awdurdod lleol) a chanolbwyntio staff a llywodraethwyr yr ysgol i fynd i'r afael â materion sydd wedi'u nodi. Fodd bynnag, barn yr awdurdod lleol yw nad yw hyn yn gynaliadwy o ran lleihau nifer y disgyblion ar y gofrestr, pwysau cynyddol ar y gyllideb a chwricwlwm newydd i'w goleddu ac, er bod yr ysgol wedi symud ymlaen o gategori cymorth 'coch' i 'felyn', mae bellach wedi gostwng i 'oren'. Nid yw'r ysgol yn gallu ariannu'n ddigonol y costau staff cyflenwi sydd eu hangen i ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant a bydd hyn yn hanfodol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn ychwanegol, cyfyngir y pennaeth gweithredol i safle'r ysgol, yn bennaf oherwydd ymrwymiadau addysgu a gofynion arweinyddiaeth ac felly nid yw'n gallu mynychu cyfleoedd datblygiad proffesiynol. Mae'r ysgol yn annhebygol o recriwtio pennaeth ar gyfer ysgol â llai na 50 o ddysgwyr sydd mewn categori cymorth 'oren'. Mae'r ysgol wedi dangos tystiolaeth o welliant pan ymyrrodd yr awdurdod lleol i leoli pennaeth dros dro yn ei swydd, ar adeg pan oedd yr ysgol yn un risg uchel. Fodd bynnag, mae'r pennaeth gweithredol presennol yn derbyn bod angen mwy o gymorth ar yr ysgol nag a wnaeth yn y gorffennol, ac felly'r categori oren yn hydref 2018. | **10** | **26%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 24 | Gan na fydd cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr meithrin, bydd hyn yn effeithio ar deuluoedd na allant yrru, gan fynd yn groes i bolisi lles y cyngor ei hun, ac mae'n fater sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn nodi bod y blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth o bwys. | Nid yw rhoi blaenoriaeth i'r Blynyddoedd Cynnar yn golygu cadw ysgol ar agor nad yw'n gynaliadwy o bosibl na darparu cludiant ar gyfer meithrinfa. Darperir cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn unol â pholisi'r Cyngor y cytunwyd arno. Mae llawer o ysgolion lle nad yw disgyblion meithrin yn cael eu cludo i'r ysgol; fodd bynnag, os oes seddau dros ben ar y bysiau mini, gall rhieni eu prynu. | **2** | **5%** |
| 25 | Mae Craig Cefn Parc yn darparu'r cwricwlwm llawn a bydd yn parhau i wneud hynny (yn groes i'r hyn a ddywedwyd yn y papur ymgynghori). Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn gyflawnwyr uchel. | Adolygodd Estyn faint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol yn eu hadroddiad ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r adroddiad yn dangos bod ysgolion cynradd mawr yn tueddu i berfformio'n well nag ysgolion bach a chanolig. Mae darpariaeth y cwricwlwm yn well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion bach, tueddir gweld diffygion yn narpariaeth y pynciau sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r diffygion hyn yn wahanol o ysgol i ysgol, ond yn aml maent wedi'u cysylltu â bylchau yn arbenigedd y staff. Yn yr ysgolion hyn, mae tri neu fwy o grwpiau oedran ym mhob dosbarth ac mae'n rhaid i athrawon gynllunio a chyflwyno gwersi sy'n diwallu anghenion disgyblion o ystod oedran ac ystod gallu eang. Mae arweinyddiaeth a phrosesau i wella ansawdd fel arfer wedi'u datblygu'n well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion cynradd bach, mae gan lawer o benaethiaid gyfrifoldeb addysgu sylweddol sy'n cyfyngu ar yr amser y gallant ei neilltuo at arwain a rheoli ac mae ganddynt lai o gyfleoedd i arfarnu safonau ac i ysgogi gwelliant. Wrth i nifer y disgyblion ostwng ac wrth i gyllidebau leihau, bydd mwy fyth o bwysau ar lefelau staffio is i ddarparu'r cwricwlwm llawn. Bydd unrhyw ysgol sydd wedi gofyn am gymorth oren am o leiaf bedair o'r pum mlynedd ddiwethaf ac mewn | **4** | **10%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ysgol o'r maint hwn yn ei chael hi'n anodd cyflwyno ehangder y cwricwlwm statudol presennol. | | |
| 26 | Anfanteision addysgol i bob disgybl dan sylw, gan y byddant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy o faint gyda rhaglenni dysgu llai personol. | Mae'n rhaid i athrawon osod rhaglen bersonol ar gyfer pob dysgwr yn eu dosbarth, beth bynnag fo'u maint, a chaiff hon ei darparu fel arfer gyda chymorth cynorthwywyr addysgu. Mae'n fanteisiol cael plant o'r un gallu/oedran mewn dosbarth yn hytrach na dosbarthiad mawr o oedrannau mewn dosbarth llai heb gymorth cynorthwywyr addysgu digonol. | **2** | **5%** |
| | | | | |
| | **Ysgol Gynradd Clydach** | | | |
| 27 | Bydd maint dosbarthiadau yn cynyddu yng Nghlydach (ac eto mae Llywodraeth Cymru yn darparu £31m i geisio lleihau maint dosbarthiadau). Caiff hyn effaith negyddol ar ddisgyblion Clydach. Mae gwrthwynebwyr yn awgrymu bod Clydach eisoes yn cael trafferth darparu cymorth AAA i ddysgwyr yn y dosbarth ac y bydd ychwanegu rhagor o blant yn achosi mwy o darfu. Mae gwrthwynebwyr hefyd yn awgrymu nad oes gan Glydach eisoes ddigon o lyfrau darllen na cyfrifiaduron llechen ar gyfer pob plentyn yn y dosbarth. | Uchafswm nifer y disgyblion mewn unrhyw grŵp blwyddyn yn Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc a fyddai'n trosglwyddo i Ysgol Gynradd Clydach yw 7. Bydd y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn gallu amsugno nifer y dysgwyr o Graig Cefn Parc ond gallai fod angen rhywfaint o ailstrwythuro ar ddosbarthiadau. Ni all dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen gael mwy na 30 o ddysgwyr yn ôl y gyfraith (yn amodol ar rai eithriadau a ganiateir) a'r nod yw bod gan ddosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 uchafswm o 30 hefyd. Dim ond ar gyfer nifer fach o ysgolion sy'n bodloni set gyfyngedig o feini prawf, gan gynnwys lefelau uchel o brydau ysgol am ddim a/neu ddysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, y darparwyd grant Llywodraeth Cymru. Dyrennir arian i bob ysgol i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion | **8** | **21** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | addysgol arbennig ac nid yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o unrhyw bryderon ynghylch cymorth i ddysgwyr yn Ysgol Gynradd Clydach. Fel arfer mae dysgwyr mewn dosbarth yn rhannu cyfrifiaduron llechen ac adnoddau eraill. Mae gan Ysgol Gynradd Clydach Ystafell TG ar hyn o bryd ond eu bwriad yw prynu dyfeisiau symudol ychwanegol ar gyfer yr ystafelloedd dosbarth, fel sy'n wir yn y rhan fwyaf o ysgolion eraill gan fod technoleg yn mynd rhagddi bellach, gan ryddhau'r ystafell offer TG fel ei bod ar gael yn lle dosbarth ychwanegol os bydd angen. | | |
| 28 | Mae Ysgol Gynradd Clydach wedi darwahanu eu hamseroedd gorffen rhwng y ddau safle ac felly caiff plant lai o addysg. | Caiff plant yr un oriau o addysg o hyd ond fe'u darperir ar adeg wahanol yn ystod y dydd. Dechreuodd y newid hwn ym mis Medi 2018 ac mae wedi llwyddo i leddfu'r traffig o amgylch y safle ar ddiwedd y diwrnod ysgol. | **1** | **3%** |
| 29 | Mae llai o glybiau ar ôl ysgol yng Nghlydach. Mae gan Graig Cefn Parc fwy o glybiau nag a ddyfynnwyd. Mae'r sesiynau yng Nghlydach yn cael eu canslo'n aml ar fyr rybudd. | Mae Ysgol Gynradd Clydach yn cynnal nifer o glybiau ar ôl ysgol ar gyfer rhaglenni ad hoc am 6 wythnos ar y tro. Mae clwb plant cynnar ar gael o 7:50a.m. ymlaen bob dydd. Gellir cynnal trafodaethau ar fathau a nifer y clybiau a ddarperir. Yn anaml y caiff sesiynau eu canslo a rhoddir cymaint o rybudd ag y bo modd. | **4** | **10%** |
| 30 | Yn ystod yr ymgynghoriad, cafwyd cwestiwn gan blant Clydach yn gofyn a fyddai plant Craig Cefn Parc yn ymddwyn yn dda. Yr ateb oedd y gallai fod plant drwg mewn unrhyw ysgol. Nid oedd hyn yn gysur i ddisgyblion mewn ysgol a fyddai'n ymwybodol o'r bwlio sy'n bodoli eisoes. | Nid yw hyn yn wir yng Nghlydach. Mae'r ysgol yn cymryd camau rhagweithiol i addysgu dysgwyr am effaith bwlio a hynny'n fesur ataliol. Mae hyn wedi cynnwys sgyrsiau gan yr heddlu cymunedol (sy'n mynychu ar gyfer amryw o bynciau eraill hefyd). Adroddodd Estyn fod- "Bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol a theimlo'n ddiogel. Mae'r cyngor ysgol yn fforwm effeithiol ar gyfer llais y disgybl, er enghraifft wrth gyflwyno llysgenhadon gwrth-fwlio. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Maent yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, mewn gwasanaethau ac ar yr iard | **1** | **3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | chwarae. Bydd y disgyblion yn dangos tosturi at eraill, gan godi arian ar gyfer nifer o elusennau". Rhaid i adroddiadau tymhorol penaethiaid wrth lywodraethwyr gynnwys cyfeiriad at unrhyw fwlio mewn ysgol. Dywedodd y pennaeth yn Ysgol Gynradd Clydach wrth y llywodraethwyr ar 26 Mawrth 2018 fod "ymddygiad yn rhagorol ac nad oedd unrhyw broblemau o gwbl" a nodwyd bod yr ysgol ar hyn o bryd yn gweithio ar ddealltwriaeth o ystyr "bwlio" go iawn. | | |
| 31 | Nid oes lle dros ben yng Nghlydach. Pryder na fydd plant sy'n byw yng Nghlydach yn gallu mynychu Ysgol Gynradd Clydach yn y dyfodol. Mae'r ysgol bron â chyrraedd ei chapasiti. Gallai fod gan rieni blant mewn mwy nag un ysgol. | Mae'r lleoedd cyhoeddedig ar gyfer Clydach yn seiliedig ar yr ystafelloedd sy'n cael eu defnyddio yn ystafelloedd dosbarth ar hyn o bryd. Mae mannau eraill y gellir eu hadfer i'w defnyddio'n ystafell ddosbarth pe bai angen, er y gallai mwyafrif dysgwyr Craig Cefn Parc gael eu derbyn i ddosbarthiadau presennol gan mai 7 fyddai'r uchafswm o ddysgwyr mewn unrhyw grŵp blwyddyn. Dylid nodi bod yr awdurdod lleol wedi adolygu'r lle yng Nghlydach yn ddiweddar gan fod yr ysgol o'r farn y gallai ddarparu ar gyfer holl ddysgwyr Clydach ar un o'i safleoedd, ac mae hyn yn amlygu lefel y lleoedd gwag yn yr ysgol. Nid oes unrhyw reswm pam y dylai fod gan rieni blant mewn mwy nag un ysgol gynradd. | **9** | **23%** |
| 32 | Bydd cynyddu'r lle a'r niferoedd derbyn yng Nghlydach yn golygu y bydd yr ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, megis yr ystafell TG, yn cael eu symud ymaith i droi'r ystafelloedd yn ystafelloedd dosbarth. Byddai angen i'r neuadd gynnwys mwy o ddysgwyr. Rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori ar y niferoedd derbyn ddwy flynedd ymlaen llaw. | Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi symud i ffwrdd o gael ystafell TG gan fod technoleg wedi datblygu ac mae dyfeisiau symudol yn gallu cael eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae Ysgol Gynradd Clydach eisoes yn ystyried bod hyn yn newid y ddarpariaeth. Gan mai ychydig o ddysgwyr a fyddai'n trosglwyddo (uchafswm o 7 y grŵp blwyddyn), bydd gofyniad cyfyngedig i ddefnyddio ystafelloedd ychwanegol yn ystafelloedd dosbarth. Mae gan Ysgol Gynradd Clydach neuadd ar | **4** | **10%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | bob safle a gellir darparu ar gyfer y nifer fach o ddisgyblion ychwanegol. Mae Hysbysiad Statudol yn trosysgrifo'r broses ymgynghori ar dderbyniadau a niferoedd derbyn. | | |
| 33 | Nid oes ystod ehangach o gyfleusterau yn Ysgol Gynradd Clydach i gynnig mwy o hyblygrwydd wrth gyflwyno holl feysydd y cwricwlwm a gwell mynediad at adnoddau a staffio. | Gan fod Clydach yn ysgol fwy o faint, bydd ganddi fwy o adnoddau a mwy o staff sydd â meysydd arbenigedd gwahanol, yn ogystal â'r gallu i gefnogi ei gilydd a darparu gwasanaeth cyflenwi. | **1** | **3%** |
| 34 | Heblaw Clydach, mae pob ysgol gynradd arall yn yr ardal hon yn llawn neu wedi'u gordanysgrifio, gan olygu nad oes dim dewis go iawn i rieni. | Mae lle yn rhai o'r grwpiau blwyddyn yn Ysgolion Cynradd Craigfelen a'r Glais ond mae rhai o'r grwpiau blwyddyn eisoes wedi cyrraedd eu niferoedd derbyn. | **6** | **15%** |
| 35 | Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol botensial ar gyfer anheddau newydd yn yr ardal (roedd sôn am rywbeth rhwng 70 a 167 o anheddau mewn gwahanol ymatebion). Mae'n anochel y bydd hyn yn cynyddu nifer y disgyblion y bydd arnynt angen lleoedd ysgol. | Ar gyfer ward Clydach, mae ffigurau'r Cyngor ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd tua 200 o unedau tai ychwanegol yn cael eu hadeiladu erbyn diwedd 2025, gyda chynnydd o 6% ar y stoc bresennol, sy'n is na'r cynnydd cyfartalog ar draws y Sir (+ 11%). Byddai amcanestyniadau'r Cyngor yn amcangyfrif llai na 40 o ddisgyblion oedran cynradd ychwanegol o 200 o dai ac nid yw hyn yn ystyried unrhyw 'ailgylchu' yn yr ardal nac unrhyw stoc a fyddai'n dod yn wag wedyn. Mae gan rieni hefyd y dewis o ysgolion ffydd a chyfrwng Cymraeg yng Nghlydach, yn ogystal â lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag Nid oes unrhyw gynlluniau pendant eto ar gyfer unrhyw waith adeiladu go iawn. | **9** | **23%** |
| 36 | Mae'r lleoliad a'r amgylchedd lle y saif Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc yn llawer llai cyfyngedig nag Ysgol Gynradd Clydach ac mae mewn amgylchedd llawer mwy naturiol, a'r disgyblion yn aml yn cael gwersi yn ardal yr ysgol goedwig, sydd o fudd i'w haddysg, eu hiechyd a'u lles. Ni ellir cynnig hyn yn Ysgol Gynradd Clydach | Mae dysgu yn yr awyr agored yn ofyniad yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan ddysgwyr yn Ysgol Gynradd Clydach ardal awyr agored ysgogol ar safle'r ysgol ac maent hefyd yn mynd ar dripiau i'r gamlas, Parc Coed Gwilym, ardal awyr agored canolfan gymunedol Forge Fach, Manor Park ac ati. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r pennaeth gweithredol yn Ysgol Gynradd | **7** | **18%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | felly ni fyddai'n darparu profiad sydd o leiaf cystal. | Craig Cefn Parc ynglŷn â mynediad i'r ardal goedwig gyfagos a'r defnydd ohoni er mwyn sicrhau bod yr asesiadau risg a'r yswiriant perthnasol yn eu lle, a bod y caniatâd gofynnol wedi'i sicrhau i gael mynediad i'r tir gan ei fod yn eiddo preifat. | | |
| | | | | |
| | **Ariannol** | | | |
| 37 | Nid fydd arbedion ariannol. Bydd costau ychwanegol ar gyfer trafnidiaeth, a dylid gwario'r arian hwn ar gadw'r ysgol ar agor yn hytrach. | Ni wnaed y cynnig hwn am resymau ariannol. Mae'n ymwneud â chynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant Craig Cefn Parc. | **12** | **31%** |
| 38 | Mae'r cynnig wedi'i wneud er mwyn arbed arian. Er bod y Cyngor yn datgan bod y cynnig heb ei wneud am resymau ariannol ceir dadansoddiad ariannol manwl yn y dogfennau ymgynghori. | Nid yw'r cynnig hwn yn arbed arian i'r Cyngor. Mae'r cynnig yn seiliedig ar resymau addysgol. O dan God Trefniadaeth Ysgolion a phroses Cabinet y Cyngor rhaid darparu gwybodaeth ariannol ar gyfer pob cynnig ac adroddiad. | **5** | **13%** |
| 39 | Os nad yw Ysgol Craig Cefn Parc yn ariannol gynaliadwy, dylid newid y fformiwla ariannu i ddyrannu mwy o arian. Mae Corff Llywodraethu Craig Cefn Parc yn gwadu bod yr ysgol yn anghynaliadwy yn y tymor hwy. Roedd gwrthwynebydd arall o'r farn, oherwydd yr holl gymorth ariannol a roddwyd i'r ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, na fyddai'n gwneud synnwyr ariannol cau'r ysgol ar hyn o bryd. | Byddai rhoi mwy o arian i Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc yn golygu cymryd arian oddi wrth ysgolion a dysgwyr eraill yn Abertawe gan nad oes arian ychwanegol ar gael. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i rannu adnoddau mor deg â phosibl er budd yr holl ddysgwyr. Dim ond yn y flwyddyn ariannol gyfredol y mae'r ysgol wedi pennu cyllideb gytbwys gyda chymorth ariannol ychwanegol gan y Cyngor (£15 mil i ddechrau ac wedyn £10 mil arall pan oeddent yn dal i fethu â chydbwyso eu cyllideb) tra bydd y broses ymgynghori yn parhau. Roedd cyllideb gytbwys yn bosibl o hyd yn unig oherwydd bod y pennaeth gweithredol wedi symud ymlaen i ysgol arall a bod y dirprwy bennaeth wedi llenwi'r swydd o fis Medi 2018 ymlaen (gan leihau nifer gyffredinol y staff addysgu gan un person). Nid yw'r ysgol yn gallu ariannu gofalwr nac unrhyw athrawon cyflenwi ar gyfer y staff, a chyfyngedig iawn yw'r gwaith cynnal a chadw blynyddol ar adeiladau'r ysgol. Ni all y Cyngor | **2** | **5%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddarparu'r £25 mil ychwanegol hwn bob blwyddyn a rhagwelir y bydd yn rhaid i'r ysgol gyhoeddi diswyddiad un aelod staff er mwyn cydbwyso ei chyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020. Bydd hyn yn arwain at gymhareb uwch o ran oedolion a phlant yn yr ysgol. | | |
| 40 | Dylid lleihau'r Dreth Gyngor os caiff yr ysgol ei symud o'r ardal hon sy’n un uchel ei thaliadau (o'i chymharu â £1,584.71 yn fwy o gyllid fesul disgybl na'r cyfartaledd ar gyfer Abertawe). | Nid yw'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar fynediad i ysgol ac mae'n ymwneud yn bennaf â gwerth eiddo. | **1** | **3%** |
| 41 | Dylai'r papur ymgynghori fod wedi rhoi ffigur cywir ar gyfer adnewyddu'r toiledau. | Mae'r ffigur wedi'i seilio ar amcangyfrif o gyllideb gychwynnol syrfëwr awdurdodau lleol. Gan mai dim ond cynnig yw hwn, ni fyddem yn ceisio dyfynbrisiau pellach nes ein bod yn siŵr bod angen i'r gwaith fynd yn ei flaen. | **1** | **3%** |
| 42 | Os yw’r gwaith cynnal a chadw ar adeilad yr ysgol sydd wedi ôl-gronni yn amherthnasol, pam sôn amdano? Mae'r cyflwr wedi ei raddio ar yr un lefel ag Ysgol Gynradd Clydach. Beth yw natur y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni? | Dim ond cefnogi gwybodaeth y disgwylir ei chynnwys mewn dogfen ymgynghori y mae hyn ac nid yw'n berthnasol i'r cynnig i ymgynghori ar gyfer cau. Sefydlwyd y ffigur gwaelodlin presennol yn 2007, sef y dyddiad y comisiynwyd yr arolygon cyflwr cychwynnol. Dyrannwyd categori cyflwr o A – D i bob ysgol i adlewyrchu lefel y gwaith cynnal a chadw sydd ei hangen i ddod â nhw i safon benodol. Roedd y ffigurau ynghylch ôl-groniad y gwaith cynnal a chadw yn seiliedig ar adfer yr holl elfennau gradd C a D i safon A/B, ac roedd yn cynnwys yr holl ffioedd proffesiynol a chostau cysylltiedig e.e. ffioedd rheoli adeiladau. Roedd y ffigurau hefyd yn caniatáu ar gyfer gwaith adnewyddu rhesymegol ac nid oeddent yn ystyried elfennau unigol yn unig. Felly, er enghraifft, mewn bloc toiledau, byddai'r gwerth yn | **2** | **5%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | debygol o adlewyrchu cost gwaith adnewyddu cyffredinol os yw'n briodol, yn hytrach na dim ond atgyweirio ac amnewid yr elfennau sy'n darfod am fywyd. Bob blwyddyn ariannol, mae'r ffigurau gwaelodlin wedi'u haddasu yn unol â'r Mynegeion Costau Cynnal a Chadw Adeiladau priodol, er mwyn sicrhau bod y ffigurau'n adlewyrchu costau cyfredol y diwydiant, a hefyd i adlewyrchu'r gwaith a wnaed, er enghraifft. | | |
| 43 | Dylai'r cyngor fuddsoddi mewn ysgolion yn lle prosiectau cyfalaf peryglus yng nghanol y ddinas. | Daw'r cyllidebau cyfalaf a refeniw o wahanol ffynonellau cyllido. | **1** | **3%** |
| 44 | Nid yw costau staffio newydd wedi'u cynnwys yn y rhagfynegiad ariannol na'r gost ddiwygiedig fesul disgybl bob blwyddyn. | Mae'n anodd rhagweld gofynion staffio yn ystod y cyfnod ymgynghori gan na fydd pob rhiant, o bosibl, yn dewis mynd â dysgwyr i ysgol gynradd Clydach pe bai'r cynnig i gau yn cael ei ddatblygu. Byddai'r gofynion staffio yn yr ysgol newydd yn dibynnu ar nifer y dysgwyr a fydd yn mynychu o Graig Cefn Parc, ac yn ôl disgresiwn y pennaeth a'r corff llywodraethu yn yr ysgol honno ac nid yr awdurdod lleol. | **1** | **3%** |
| | | | | |
| | **Yr Effaith ar Blant a Staff** | | | |
| 45 | Mae symud ysgolion yn creu straen i blant. | Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda dysgwyr a byddai'n cyflwyno cynllun pontio lle byddent yn ymweld â'r ysgol newydd cyn unrhyw symud, fel y gwnânt pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. | **3** | **8%** |
| 46 | Honnir y bydd staff yn cael eu hadleoli ond gan mai'r llywodraethwyr yng Nghlydach fydd yn gwneud y penderfyniad hwnnw, sut y gellir rhoi sicrwydd? | Byddai'r awdurdod lleol yn gweithio gydag Ysgol Gynradd Clydach i asesu gofynion staffio ychwanegol ac a ellir adleoli staff yn briodol i'r ysgol honno gan y byddai'n cynorthwyo dysgwyr i bontio pe baent yn gweld wynebau cyfarwydd.  Os na ellir lleoli staff yng Nghlydach gallant ystyried adleoli i ysgolion neu fannau gwasanaeth eraill yn y Cyngor. | **1** | **3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Efallai yr hoffai rhai aelodau staff ystyried ymddeol yn gynnar. | | |
| 47 | Mae dweud bod yr ysgol yn wael yn ddamniol i staff sydd eisoes mewn sefyllfa fregus. | Mae'r staff yn yr ysgol yn dda. Gallu'r ysgol gyfan i'w gwella ei hun ac ymdopi â'r cwricwlwm newydd a'r galwadau cynyddol sy'n wael. | **2** | **5%** |
| | | | | |
| | **Dewisiadau Eraill** | | | |
| 48 | Newid y dalgylch er mwyn symud ychydig o ardal Clydach i Graig Cefn Parc. | Nid yw newid dalgylch yn golygu y byddai nifer y disgyblion yn cynyddu yn Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc. Gall rhieni ddewis ble maent yn anfon eu plant, a chan y byddai lle yn Ysgol Gynradd Clydach ar gyfer dysgwyr, byddai'r plant yn debygol o aros yng Nghlydach. | **1** | **3%** |
| 49 | Mae angen ymchwilio ymhellach i ffedereiddio. Nid oedd wedi cael ei ystyried yn llawn cyn ymgynghori ar y cynnig i gau'r ysgol. Dim ond yn ddiweddar y mae llywodraethwyr Clydach wedi trafod ffedereiddio, er bod y Cyngor wedi dweud bod trafodaethau wedi'u cynnal. Ni all y Cyngor ddarparu tystiolaeth o drafodaethau ffedereiddio gydag ysgolion lleol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'n well ffedereiddio ysgolion Clydach a Chraig Cefn Parc yn well na'u cau. Ni ddylai pennaeth Clydach fod yn rhan o'r bleidlais ffedereiddio. Nid yw negeseuon e-bost a llythyrau a anfonwyd gan lywodraethwyr Craig Cefn Parc at lywodraethwyr Clydach wedi'u derbyn ganddynt. Dylai llywodraethwyr Craig Cefn Parc fod wedi cael eu gwahodd i'r cyflwyniad ar ffedereiddio yng nghyfarfod llywodraethwyr Clydach. | Gwnaeth yr awdurdod ystyried ffedereiddio yn llawn fel dewis cyn ymgynghori ar gau Craig Cefn Parc ond ni wnaeth ddefnyddio ei bwerau i 'orfodi' ffedereiddio gan nad oedd yn ystyried mai hwn fyddai'r opsiwn gorau. O dan gynllun ffedereiddio mae pob ysgol yn parhau i gael ei chyfran ei hun o'r gyllideb ac yn derbyn ceisiadau gan rieni i bob ysgol. Y prif wahaniaeth o dan ffedereiddio yw mai un corff llywodraethu sydd, gyda'r potensial i gael un pennaeth, fel arfer yn cyflenwi ar gyfer dirprwy benaethiaid nad ydynt yn addysgu ar bob safle. Mae'r awdurdod lleol wedi cynnig trafod ffedereiddio gyda llawer o gyrff llywodraethu yn Abertawe, ond ni fu'n bosibl nodi ysgol arall sy'n dymuno ffedereiddio ag Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc. Gofynnodd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Clydach i'r awdurdod lleol fynychu cyfarfod eu corff llywodraethu ym mis Ionawr i egluro sut mae ffedereiddio'n gweithio. Wedyn pleidleisiasant yn swyddogol na fyddent yn dymuno mynd ar ôl ffedereiddio gyda Chraig Cefn Parc. Roedd gan bennaeth | **14** | **36%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ysgol Gynradd Clydach hawl i bleidleisio ar y mater hwn. Mater i lywodraethwyr Ysgol Gynradd Clydach yw'r rhai y maent yn eu gwahodd i'w cyfarfodydd ond mae ysgolion eraill sydd wedi trafod ffedereiddio hefyd wedi gwneud hyn heb i eraill fod yn bresennol fel y gellir cynnal trafodaethau agored a chyfrinachol. Mae cyrff llywodraethu ysgolion eraill yn yr ardal hefyd wedi trafod ffedereiddio fel opsiwn ond wedi dewis peidio â mynd ar drywydd hwn gyda Chraig Cefn Parc. Mae'n rhaid i lywodraethwyr Craig Cefn Parc fynd ar drywydd negeseuon e-bost y maent wedi'u hanfon at ysgolion/llywodraethwyr eraill | | |
| 50 | Byddai ffedereiddio â'r Glais yn mynd i'r afael â'r niferoedd ar y gofrestr gan y gallai disgyblion o'r Glais gael eu cyfeirio at Graig Cefn Parc. | Nid dyna sut mae ffedereiddio yn gweithio. O dan gynllun ffederasiwn, mae ysgolion yn parhau i dderbyn disgyblion yn ysgolion ar wahân. Ni ellir cyfeirio plant at ysgol arall. Bydd rhieni yn parhau i wneud cais i ysgol eu dewis hyd nes y cyrhaeddir nifer y derbyniadau ar gyfer yr ysgol honno. | **1** | **3%** |
| 51 | Agor uned Gymraeg ac adleoli disgyblion Felindre. | Mae cynnig ar wahân i adleoli Felindre i ysgol newydd i'w hadeiladu ar gyfer YGG Tan-y-lan. Mae disgyblion sy'n gofyn am ddarpariaeth Gymraeg gan Graig Cefn Parc yn mynd i YGG Gellionnen yng Nghlydach. | **1** | **3%** |
| | | | | |
| | **Proses** | | | |
| 52 | Nid yw gwrthwynebiadau'n cael eu cymryd o ddifrif. Penderfynwyd ymlaen llaw a bu rhagfarn. | Mae'r broses ymgynghori wedi'i chynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac ni fu unrhyw ragbenderfyniad. | **6** | **15%** |
| 53 | Roedd adroddiad Estyn wedi'i gynnwys yn y papurau ymgynghori ond nid oedd yr adroddiad monitro dilynol, a oedd yn dangos cynnydd cadarn, ar gael. | Mae'r Cod Trefniadaeth ysgolion yn gofyn am gynnwys adroddiad arolygu diwethaf Estyn yn unig. | **1** | **3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 54 | Nid ymgynghorwyd â Chynghorydd Her ERW yn ystod y broses, ond gan yr unigolyn hwn y mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r ysgol i’w roi yn y sefyllfa orau i roi gwybodaeth am safonau addysgol. | Mae'r Cynghorydd Her ar gyfer yr ysgol yn gwbl ymwybodol o'r cynnig i gau ac mae wedi cymryd rhan lawn yn y broses gategoreiddio a'r achos dros y penderfyniad arfaethedig i'w chau. Mynychodd bron pob un o'r cyfarfodydd ymgynghori yng Nghraig Cefn Parc a Chlydach yn ystod y broses. Ymgysylltodd â'r llywodraethwyr, y rhieni a'r gymuned ehangach yn ystod y cyfarfodydd ymgynghori ac ymatebodd i gwestiynau gan y rhanddeiliaid hyn. Mae'r Cynghorydd Her yn nodi nad aeth unrhyw lywodraethwyr i gyfarfod SV1 (cyfarfod gofynnol sy'n digwydd gyda phob ysgol i drafod perfformiad). Mewn cyfarfod llywodraethwyr, holwyd gyda'r Cynghorydd Her sut i wrthwynebu eu dosbarthiad gan eu bod yn teimlo bod yr ysgol wedi'i chategoreiddio'n oren i gefnogi achos yr awdurdod dros gau; fodd bynnag, ni dderbyniwyd yr anghytundeb erioed. | **1** | **3%** |
| 55 | Heriwyd bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ddiffygiol. | Nid yw'r awdurdod lleol yn cytuno â'r datganiad hwn. | **1** | **3%** |
| 56 | Dim ond cynghorwyr a oedd o blaid cau a gafodd ganiatâd i fynychu cyfarfodydd craffu. Roedd gwrthwynebwyr wedi gofyn i'w hymgynghorydd eu hunain gael eistedd ar y pwyllgor craffu, ond gwrthodwyd hyn. | Ceir aelodaeth ffurfiol o gyfarfodydd craffu, gan gynnwys aelodau statudol cyfetholedig a'r unig swydd wag yw’r un ar gyfer cynrychiolydd ysgol ffydd. Os bydd unrhyw un ar y panel yn datgan diddordeb gall ddewis peidio â chymryd rhan, ar sail cyngor cyfreithiol. | **2** | **5%** |
| 57 | Mae cyfamod sy’n dweud mai ar gyfer y gymuned ffermio a'u plant y mae'r ysgol. Os caeir yr ysgol bydd y tir yn dychwelyd i Ymddiriedolaeth Somerset. | Mae’r gweithredoedd wedi'u gwirio gan gyfreithiwr y Cyngor ac nid oes dim a fyddai'n atal gwaredu’r safle. Nid yw'r cynnig wedi'i wneud am resymau ariannol ac mae'n ymwneud â chynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant Craig Cefn Parc. | **4** | **10%** |
| 58 | Roedd datganiadau a wnaed gan rieni ynghylch pam eu bod wedi mynd â’u plant o'r ysgol wedi'u hanwybyddu pan benderfynodd y Cabinet fynd i Hysbysiad Statudol. | Rhannwyd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn llawn â phob aelod o'r Cabinet cyn eu cyfarfod. | **1** | **3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 59 | Peidio ag ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (nid yw'n ystyried iechyd plant ac oedolion os na allant gerdded i'r ysgol mwyach; yn dileu mynediad cyfartal i addysg; yn atal mynediad i addysg yn ein cymuned ein hunain; ond yn edrych ar hyn o bryd ar niferoedd disgyblion ac nid y tymor hwy pan all niferoedd godi) | Mae Cyngor Abertawe yn gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ym mhob peth a wna. Mae datblygu cynaliadwy wedi bod yn egwyddor drefniadol ganolog er 2012 a phob blwyddyn mae'r Cyngor yn anelu at wreiddio mwy o arferion cynaliadwy ac adeiladu arnynt. Mae'r ffocws ar integreiddio newid ymddygiad er mwyn i'r pum ffordd o weithio a mwynhau pob un o'r nodau llesiant cenedlaethol yn ymhlyg yn y ffordd y mae gwasanaethau yn gweithredu fel Cyngor cyfan.<br>Integreiddio - Mae ein Cynllun Corfforaethol 'Sicrhau Abertawe Gynaliadwy a Llwyddiannus' yn nodi sut y mae'r sefydliad yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio ac yn cynyddu'r cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol.<br>Credwn fod y penderfyniad hwn yn cyd-fynd nid yn unig â'r Amcan Llesiant 'Gwella Addysg a Sgiliau ' ond ag amcanion llesiant eraill.<br>Mae Cynllun Llesiant Lleol Abertawe yn rhoi blaenoriaeth i amcanion llesiant lleol ar gyfer gweithredu ar y cyd. Ni chaiff cyflawni amcanion llesiant lleol ei fygwth gan y penderfyniad hwn.<br>Gan fod y dystiolaeth hon yn dangos effeithiau pellgyrhaeddol ar draws y nodau llesiant, mae'r rhain wedi'u dogfennu. Mae Cyngor Abertawe yn ystyried y materion hyn nid yn unig drwy fynd i'r afael â phryderon penodol ar eu pen eu hunain ond drwy ystyried yn anffurfiol yr effaith gyfunol ar lesiant a sut y gall y materion a godir effeithio ar lesiant ehangach. Mae hyn yn ystyried yn anuniongyrchol yr effaith gyfunol ar y saith nod llesiant fel set.<br>Tymor hir - Mae'r penderfyniad yn ystyried nid yn unig lles y dysgwyr sydd ar hyn o bryd yng Nghraig Cefn Parc ond lles holl ddysgwyr Abertawe heddiw ac yn y dyfodol. | **15** | **38%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae hyn yn cynnwys cymryd i ystyriaeth yn hirdymor dueddiadau sy'n llywio datblygiad polisïau a strategaethau'r Cyngor.<br>Atal - Mae'r Cyngor wedi gweithredu ar ôl nodi effeithiau andwyol ar ddysgu a chynaliadwyedd yn y dyfodol. Nod y penderfyniad hwn yw rhwystro neu atal problemau rhag gwaethygu.<br>Cydweithredu - Mae'r ystyriaeth o'r effeithiau ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol wedi'i llywio gan arbenigedd gwasanaethau ar draws ein sefydliad a chan sefydliadau allanol megis y Comisiwn Archwilio. Archwiliwyd cyfleoedd cydweithredol e.e. ffedereiddio yn rhan o hyn<br>Cynnwys - Mae'r ddogfen ymgynghori yn dangos llawer o weithgareddau i ymwneud â'r rhai sydd â diddordeb neu yr effeithiwyd arnynt gan y cynnig mewn ffordd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth | | |
| 60 | Ymgynghori annigonol â'r plant. Y papur ymgynghori yn anodd i blant ei ddeall, yn enwedig y plant meithrin. Dim ond ag ychydig o blant y cynhaliwyd y cyfarfodydd ymgynghori. Nid yw'n glir sut yr ymgynghorwyd â phlant yng Nghlydach. | O dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, rhaid cynnal cyfarfodydd ymgynghori â chyngor ysgol yr ysgolion yr effeithir arnynt ac mae hyn wedi digwydd yn ysgolion Craig Cefn Parc a Chlydach. Mae aelodau cyngor yr ysgol yn cynrychioli eu cyfoedion ac wedi trafod y cynnig gyda'u cyd-ddisgyblion cyn y cyfarfod â swyddogion yr awdurdod lleol. Dosbarthwyd y papurau ymgynghori i bob dysgwr yn y ddwy ysgol. | **6** | **15%** |
| 61 | Nid yw'r cynnig yn nodi'n ddigon clir beth yw effaith y cynnig ar ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. | Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sydd ynghlwm wrth y cynnig yn cynnwys anghenion addysgol arbennig. Rhaid i bob ysgol roi sylw i anghenion pob un o'i dysgwyr a chaiff ysgolion eu hariannu i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion arbennig. | **2** | **5%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 62 | Mae gan y Gweinidog dros Addysg agenda glir i ddiogelu ysgolion bach a gwledig, o ystyried eu pwysigrwydd i'r cymunedau lleol hynny. | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Chod Trefniadaeth Ysgolion newydd ac nid yw wedi categoreiddio Craig Cefn Parc yn ysgol wledig. Mae'r newid yn y Cod yn gofyn am gymryd cam ychwanegol cyn dechrau ymgynghoriadau lle ystyrir dewisiadau amgen yn lle cau. Roedd y Cyngor wedi gweithredu o fewn ysbryd y Cod newydd ac wedi ystyried dewisiadau eraill yn lle cau. | **1** | **3%** |
| 63 | Ni chafwyd ymweliad nac ymgynghoriad â'r gymuned i lunio'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. Nid yw'r asesiad o'r effaith ar y gymuned ond yn ystyried defnyddio adeiladau'r ysgol. Nid oedd asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer Clydach. | Nodir cynnwys gofynnol yr asesiad o'r effaith ar y gymuned yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae angen i'r asesiad ystyried beth mae'r ysgol yn ei gynnig i'r gymuned o ran mynediad cymunedol (nid yw Ysgol Craig Cefn Parc yn cynnig mynediad cymunedol heblaw'r grŵp rhieni a phlant bach) a darpariaeth y tu allan i oriau ar gyfer dysgwyr. Mae canolfan gymunedol y mae defnydd da arni yn gwasanaethu pentref Craig Cefn Parc. Roedd yr asesiad hefyd yn cynnwys defnydd cymunedol o adeilad ysgol Clydach. | **8** | **21%** |
| 64 | Ni cheisiwyd ymgynghori â'r ysgol i sicrhau'r Grant Ysgolion Bach a Gwledig. Pam nad yw Craig Cefn Parc ar y rhestr o ysgolion bach a gwledig a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru? Gallai'r ceisiadau y mae'r gweithgor yn dymuno eu cyflwyno fod wedi cefnogi'r ysgol sy'n dal ar agor. Pam y cafodd y cais cyntaf i Lywodraeth Cymru ei wrthod? | Rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno ceisiadau am y grant hwn gan mai grant awdurdod lleol ydyw ac nid grant ysgol. Fel y nodwyd uchod, nid yw Ysgol Gynradd Craig Cefn Parc ar restr ysgolion gwledig Llywodraeth Cymru. Mae'r meini prawf ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn gyfyngedig ac nid oedd Llywodraeth Cymru yn teimlo bod cais yr awdurdod lleol am BA2017-2018 yn bodloni'r meini prawf hyn, er bod yr awdurdod lleol yn dal i ddadlau'r achos. Bu'r awdurdod lleol yn llwyddiannus wrth gynnig am brosiect dichonoldeb yn BA2018-2019 fel y gellir llunio achos busnes llawn gyda'r corff llywodraethu gyda'r bwriad o gyflwyno ceisiadau am y grant ar gyfer BA2019-2020. Mae swyddogion yr awdurdod hefyd wedi cynnig cefnogi'r gweithgor yn | **4** | **10%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | eu cais i sefydlu darpariaeth gofleidiol yn yr ysgol, er mai dim ond yn ddiweddar y manteisiwyd ar y cynnig hwn.<br>Dylid nodi i’r awdurdod lleol fod yn llwyddiannus wrth gynnig am y grant hwn yn BA2019-2020 er mwyn darparu staff cyflenwi i gynorthwyo staff yng Nghraig Cefn Parc i ddilyn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. | | |
| 65 | Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd ffurfiol ar gyfer y gymuned, dim ond sesiynau galw heibio a oedd yn gwneud rhai o'r trigolion yn llai awyddus i ddod. Ni ddylid bod wedi treialu arddull sesiynau galw heibio yn Abertawe ar gyfer cynnig i gau ysgol. Ni fuasai modd rhannu'r nodiadau a sgriblwyd mewn unrhyw ffordd ystyrlon. | Nid yw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn mynnu bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Mae llawer o awdurdodau lleol yn cynnal sesiynau galw heibio. Cafodd yr holl nodiadau a gymerwyd eu trawsgrifio'n llawn i aelodau'r Cabinet eu gweld, a chynhwyswyd pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad ymgynghori. | **3** | **8%** |
| 66 | Nid atebwyd cwestiynau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bu'n rhaid cyflwyno'r Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ond ni ddarparwyd atebion yn llawn nac yn amserol. Ni atebwyd cwestiynau yn y sesiynau galw heibio, ond fe'u cofnodwyd. | Roedd y sesiynau galw i mewn yn golygu bod modd cofnodi barn y cyhoedd. Darparwyd atebion lle'r oeddent yn hysbys. Mae'r holl gwestiynau a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol wedi'u hateb yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad sydd wedi'i rannu'n eang. Mae pob Cais Rhyddid Gwybodaeth wedi ei ateb. Os nad yw'r rhai sy'n gofyn am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn fodlon ar yr ymateb a roddwyd, mae proses glir i'w dilyn ond ni soniwyd am unrhyw broses ddilynol. | **1** | **3%** |
| 67 | Dylai Aelodau'r Cabinet fod wedi ymweld â Chraig Cefn Parc a Chlydach cyn pleidleisio. Dylai Aelodau'r Cabinet fod wedi cyfarfod â'r gymuned. | Nid yw hyn yn ofynnol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion; fodd bynnag, mae aelodau'r Cabinet yn gyfarwydd â'r ardal a'r ysgolion. Cyflwynwyd ystadegau addysgol ac ystadegau eraill yn adroddiadau'r Cabinet a'r papur ymgynghori. | **9** | **23%** |
| 68 | Mae'r pellter rhwng yr ysgolion yn y papur ymgynghori wedi cael ei herio. | Mae “tua milltir" yn ddyfyniad gan Estyn a’r bwriad yw rhoi cefndir i'r rhai nad ydynt o'r ardal ar leoliad yr ysgol yn fras mewn perthynas â thref Clydach. Mae 1.8 milltir o bellter rhwng yr ysgolion ar hyd y ffordd. | **1** | **3%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 69 | Ni ddylid defnyddio diffyg pennaeth parhaol fel rheswm i gau'r ysgol. | Nid yw'r corff llywodraethu wedi llwyddo i benodi pennaeth arall tra roedd y pennaeth parhaol a benodwyd ganddynt yn dal mewn swydd (ond nid yn ei waith), gan na all ysgol gyflogi dau bennaeth. | **1** | **3%** |
| 70 | Roedd un gwrthwynebydd o'r farn fod gan un o swyddogion y cyngor gysylltiad [tenau] â'r pentref ac na ddylai fod wedi bod yn rhan o'r broses. | Mae'r Cyfarwyddwr Addysg yn gwbl fodlon nad oes gan swyddogion sy'n ymwneud â'r broses unrhyw ddiddordeb a ddylai fod wedi'i ddatgan. | **1** | **3** |

Trefnwyd bod yr holl wrthwynebiadau ar gael yn llawn i'w gweld gan y Cabinet.